**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol ag adran 11A (4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Gan fod adeiladau cyhoeddus wedi'u cau, a rhai papurau newydd wedi symud i gyhoeddi ar-lein yn unig, a fu'n angenrheidiol i arafu lledaeniad COVID-19, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i fodloni'r gofynion deddfwriaethol i ddod â gorchymyn rheoleiddio traffig ffyrdd i rym. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig a rhoi hysbysiadau drwy ddarparu dulliau amgen o roi cyhoeddusrwydd i orchmynion mewn amgylchiadau lle nad yw'n rhesymol ymarferol dilyn y gofynion cyhoeddusrwydd cyfredol o ganlyniad i COVID-19.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio —

- Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992 ("Rheoliadau 1992");
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 ("Rheoliadau 1996"); a
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990 ("Rheoliadau 1990").

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn lliniaru effeithiau cyfyngiadau COVID-19.

Bydd peidio â dod â'r rheoliadau i rym ar unwaith yn achosi ôl-groniad cynyddol o orchmynion traffig yn aros i gael eu gwneud, a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

draws y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru. Byddai hefyd yn oedi'r defnydd o weithdrefnau brys newydd ar gyfer gorchmynion traffig dros dro sy'n angenrheidiol at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Ystyrir nad yw'n angenrheidiol ac yn gyfiawn cadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn.

Yn unol ag adran 134(10) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ceisiwyd barn sefydliadau cynrychioliadol rhwng 05 Mehefin a 17 Mehefin 2020 (cyfnod o 12 diwrnod). Dim ond un ymholiad a godwyd mewn perthynas â pharcio 'café palmant' ond nid oes unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau hysbysu ar gyfer trwyddedau 'café palmant ', naill ai o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 neu Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan fod angen rhoi'r rheoliadau ar waith yn gyflym i ymdrin ag argyfwng sy'n gysylltiedig ag effeithiau coronafeirws Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Daeth yr Adran Drafnidiaeth â rheoliadau tebyg i rym ar gyfer Lloegr ar 25 Mai 2020.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd